Craffu Gwynedd
Gofyn - Gwrando - Gwella

# CRAFFU'N GWEITHIO – CRAFFU'N GWNEUD GWAHANIAETH

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# TROSOLWG A CHRAFFU 2010 – 2011



Mae'r adroddiad yma yn ymhelaethu ar y prif wahaniaethau wnaed yn sgil gwaith y Pwyllgorau Craffu a'r Gweithgorau Gwella.  Gwelir yma hefyd eu llwyddiannau eraill a'u blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod.

**Prif Bwyllgor Craffu**

<u>Cadeirydd</u>
Cyng. Keith Marshall



<u>Is-gadeirydd</u>
Cyng. Guto R Tomos






**Y Gwahaniaeth**

**Pwyllgorau Ardal**
Penderfynodd y Pwyllgor ar 23 Ebrill 2010 argymell model arfaethedig ar gyfer un pwyllgor cynllunio i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Mai, ond gan ychwanegu y dylai’r pwyllgor newydd fod ar sail cydbwysedd ardal, yn ogystal â chydbwysedd gwleidyddol, ac y bydd rhagdybiaeth o blaid cael trafod cais yn lleol.

Cymeradwywyd argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu gan y Cyngor llawn ar 13 Mai 2010 a bod y Pwyllgor Craffu Amgylchedd yn cynnal adolygiad ymhen 12 mis o’i gychwyn ynglŷn â pha mor effeithiol oedd y trefniadau newydd ac ystyried newidiadau pellach yn ôl yr angen.

**Strategaeth Arbedion 2010-2013**
Cafodd £16 miliwn o arbedion posib eu hadnabod yn ôl yn 2009 i’w cyflawni dros dair blynedd. Mae’r Prif Bwyllgor Craffu wedi derbyn aroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflawniad y Strategaeth 2010-2013 ac wedi herio’r Penaethiaid yn galed i sicrhau cyflawni’r arbedion hyn. Pwysleisiwyd wrth y Penaethiaid ei bod yn ddyletswydd arnynt i ddileu unrhyw ddiffyg drwy gyflwyno cynlluniau eraill i gyflawni’r arbedion angenrheidiol. Mae £4.12miliwn o’r arbedion a gafodd eu hadnabod yn 2009 bellach wedi cael eu gwireddu, sef 100% o gynlluniau’r flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn golygu bod y £11.6 miliwn sydd weddill ar ôl i’w roi ar waith yn ystod 2011/12 a 2012/13.

**Adroddiad Gweithgor Craffu Arbedion ar Argymhellion i gynlluniau yn Ymwneud â’r 3ydd Sector**
Yn ystod cyfarfod Gweithgor Arbedion y Prif Bwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 23/10/09, penderfynwyd comisiynu adolygiad manwl o’r mudiadau 3ydd Sector er mwyn sicrhau gwybodaeth ddigonol a dealltwriaeth glir o’r cynlluniau gerbron ac effaith yr arbedion oedd yn cael eu cynnig. Cadarnhaodd y Gweithgor na ddylid gweithredu ar unrhyw arbedion arfaethedig hyd 2011/12, er mwyn sicrhau rhybudd digonol i’r mudiadau perthnasol.

Wrth ddiffinio brîff y gwaith, penderfynodd y Gweithgor y byddai'n rhesymol a manteisiol i geisio edrych ar y darlun mewn cyd-destun mwy holistaidd. Golygai hyn edrych ar waith y mudiadau dan sylw, ac yn ogystal edrych ar feysydd mewnol lle'r oedd gwaith tebyg yn digwydd. Yr oedd hefyd yn gyfle i blethu gyda rhaglen waith datblygu'r drefn gomisiynu o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, ble'n berthnasol.

Fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r 8 mudiad dan sylw yn unigol i gasglu gwybodaeth a sicrhau dealltwriaeth glir o waith y mudiad. Canlyniad y trafodaethau oedd cytundeb ar gynnwys papur i'w gyflwyno i'r Gweithgor ar 29/04/2010.

Yn ogystal, bu cynrychiolwyr o'r mudiadau unigol gerbron y Gweithgor Arbedion i ateb cwestiynau'r aelodau a rhoi cyflwyniad byr o waith eu mudiad er mwyn ystyried y mater ymhellach.

Bu i bob mudiad yn unigol dderbyn cofnod o argymhelliad y Gweithgor, a diweddarwyd mudiadau unigol yn dilyn penderfyniadau'r Prif Bwyllgor Craffu ac eto yn dilyn penderfyniad y Bwrdd. Argymhellodd y Gweithgor gynllun arbediad ar gyfer rhai mudiadau, ond argymhellwyd gwaith pellach mewn ambell faes lle credwyd y gellir gweithio'n fwy effeithiol a lle 'roedd angen ystyriaeth bellach parthed y drefn comisiynu.

Cyflwynodd Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion ei adroddiad i'r Prif Bwyllgor Craffu ar 1 Gorffennaf 2010 yn gofyn i'r pwyllgor ystyried argymhellion y gweithgor parthed 8 cynllun ar gyfer arbedion sy'n effeithio ar y 3ydd sector. Penderfynwyd derbyn yr argymhellion gyda'r newidiadau a ganlyn:-

<u>Trais yn y Cartref</u> – lleihau'r cyllid 50% yn 2011/12 a gwneud asesiad pellach o'r angen ar ddiwedd 2011/12.
<u>Cymorth i Ferched – Bangor</u> - lleihau'r cyllid 50% yn 2011/12 a gwneud asesiad pellach o'r angen ar ddiwedd 2011/12.

Penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu gan ofyn am asesiad pellach o'r angen erbyn 2012/13.

Adroddwyd ar y gwaith pellach i'r Prif Bwyllgor Craffu ac i'r Bwrdd ar 23 Tachwedd 2010 ble penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo'r argymhellion gyda'r angen i fynd trwy'r broses comisiynu ar gyfer 2012 ymlaen.

**Polisi Caffael Cynaliadwy 2011**
Adolygwyd y Polisi gan y Gweithgor Caffael Cynaliadwy. Fel rhan o'r broses, ymgynghorwyd gyda 5 Pennaeth Adran, Menter a Busnes, Gwerth Cymru, yr Uned Cefnogi Busnes a'r Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru gyda'r nod o sicrhau mewnbwn a chytundeb ar y cyfeiriad a chefnogaeth i weithredu.

Yn unol ag amcanion allweddol y Strategaeth Caffael 2008 – 2011, bydd y Cyngor yn sicrhau bod gweithgaredd caffael yn adlewyrchu'r egwyddor o gynaliadwyedd ac yn dylanwadu ar strategaethau datblygiad economaidd.

Drwy ddatblygu a gweithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy diweddaraf, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn galluogi'r cyflenwyr priodol, yn cynnwys busnesau bach a chanolig, cwmnïau preifat a'r trydydd sector, i geisio am gytundebau'r cyngor; lleihau effaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith; creu amgylchedd sydd yn darparu cyfleoedd i uchafu'r buddion yn deillio o gynnwys a gweithredu meini prawf cymdeithasol o fewn gweithgareddau caffael a sicrhau fod asesiadau gwerth am arian yn cael eu seilio, lle'n briodol, ar gostau gydol oes.

Mae'r polisi newydd yn sicrhau bod y pwyntiau yn cael ystyriaeth drwy gynnwys cwestiynau penodol o fewn y rhestrau gwirio a hefyd yn amlygu'r ffactorau cynaladwyedd i'w ystyried o fewn wahanol rannau o'r broses.

Mae'r Gweithgor wedi diwygio ac yn cefnogi'r Polisi Caffael Cynaliadwy. Cododd negeseuon pwysig allan o'r drafodaeth ynglŷn â sicrhau bod cyfleoedd i annog cwmnïau bach a chanolig lleol i geisio am waith ddim yn cael eu colli; bod swyddogion o fewn yr adrannau sydd yn prynu yn derbyn yr hyfforddiant sydd angen; a bod perfformiad a gwelliannau i'r economi yn cael eu monitro.

Mabwysiadwyd Polisi Caffael Cynaliadwy 2011 gan Fwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011.

**Strategaeth Ariannol 2011/12-2014/15**
Ystyriwyd y tybiaethau a wnaed wrth sefydlu'r gyllideb a hefyd y materion penodol yn yr adroddiad yn ofalus.

Penderfynwyd: o ystyried y gyllideb a nodir yn yr adroddiad a'r sylwadau ychwanegol a wnaed o ran risgiau ariannol sydd wedi'u cyfarch, bod y Pwyllgor yn fodlon gyda'r hyn y bwriedir ei wneud o ran gwariant a sut y bwriedir sicrhau cyllideb gytbwys yn 2011/12; o gofio'r newidiadau sydd nawr wedi'u hymgorffori o ran lleihau cyfraniad ysgolion, bod y pwyllgor yn parhau'n gyfforddus gyda'r strategaeth ar gyfer darganfod yr arbedion dros y cyfnod 4 blynedd a amlinellir yn yr adroddiad. Hefyd, cytunwyd i'r proffil diwygiedig ar gyfer yr arbedion i'w darganfod o'r meysydd unigol; cytunwyd gyda'r hyn a argymhellwyd ar gyfer rhaglen gyfalaf 2011/12 yn yr adroddiad; ac argymellwyd i'r Bwrdd argymell i'r Cyngor llawn gyflwyno cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor yn 2011/12.

**Monitro Perfformiad a Chraffu Cynlluniau Busnes**
Penderfynodd y Prif Bwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ar y 1af o Orffennaf i dreialu trwy Weithgor Gwella, y gwaith o fonitro perfformiad 6 misol a chraffu cynlluniau busnes drafft yr adrannau perthnasol i faes gwaith y Pwyllgor.
Cynhaliwyd 2 gyfarfod o'r Gweithgor yn ystod mis Tachwedd 2010 ar gyfer monitro perfformiad a 2 gyfarfod arall yn ystod mis Ionawr 2011 ar gyfer craffu cynlluniau busnes. 'Roedd y cyfarfodydd cyntaf ar gyfer paratoi, gyda help y Rheolwyr Cyfrif Perfformiad perthnasol, cwestiynau ar gyfer yr Arweinyddion Portffolio a'r Penaethiaid Adrannau. Yr ail gyfarfodydd ar gyfer cwestiynu'r Arweinyddion Portffolio a'r Penaethiaid Adrannau, gan sicrhau ymateb derbyniol i'r Aelodau.

Bu'r profiad o fonitro perfformiad drwy Weithgor Gwella yn llwyddiannus gyda'r aelodau yn mynegi eu gwerthfawrogiad o'r cyfle i wyntyllu'n fanylach yr wybodaeth

sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiadau gan y penaethiaid. Yn ogystal â chael cyfle i fynd dan y wyneb ar rai materion yr oedd ymatebion aeddfed a chynhwysfawr gan yr Arweinyddion Portffolio a'r Penaethiaid wedi golygu bod y broses yn eithaf llyfn. Yn ogystal, yr oedd yr ymateb gan y swyddogion i'r profiad yn y gweithgor wedi bod yn gadarnhaol gan fod y dull o ymateb mewn gweithgor wedi galluogi trafodaeth fwy ystyrlon ar berfformiad.

Yn unol â briff y Gweithgor cyflwynwyd adroddiadau monitro perfformiad diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor Craffu.

O ran craffu cynlluniau busnes trwy Weithgor Gwella, yr oedd yr aelodau yn hynod falch o'r cyfle ac yn datgan eu bod wedi derbyn gwell dealltwriaeth o'r dangosyddion perfformiad a'r prif faterion oedd yn wynebu'r gwasanaethau yn 2011/12. Yn ogystal, yr oedd y Penaethiaid yn datgan eu bod o'r farn bod y dull o graffu'r cynlluniau busnes drafft trwy weithgor yn ddatblygiad positif ac yn llawer gwell na chraffu mewn Pwyllgor, oherwydd bod y drefn yn galluogi gwell deialog a mwy o amser yn cael ei roi mewn Gweithgor i graffu mewn manylder a derbyn ymatebion llawn.

**Beth Arall Wnaeth y Pwyllgor**

- Ystyriwyd adroddiad drafft ar Gyrhaeddiad y Cyngor yn 2009/10
- Ystyriwyd Cyllideb a blaenoriaethau'r Cyngor 2011/12
- Ystyriwyd Rheolaeth Trysorlys
- Ystyriwyd Hunan Asesiad o'r Cyngor
- Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol - Penderfynwyd argymell i Fwrdd y Cyngor fabwysiadu fframwaith CIPFA a Solace fel sail i Gôd Llywodraethu Lleol Gwynedd
- Ystyriwyd Mesur Arfaethedig Llywodraeth Leol (Cymru)
- Ystyriwyd adroddiad ar Gynllun Lwfansau Aelodau
- Ystyriwyd Adolygiad Rhesymoli Partneriaethau
- Ystyriwyd Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
- Ystyriwyd adroddiad cynnydd ar 'Cynllunio am Argyfwng' a phenderfynwyd bod angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ymhen 6 mis

**Blaenoriaethau'r Flwyddyn Nesaf**

- Ystyried Cynllun 3 Blynedd y Cyngor 2011-2014
- Trefniadau Democrataidd y Cyngor er cydymffurfio â gofynion Mesur newydd Llywodraeth Cymru.
- Strategaeth Arbedion a'r Strategaeth Ariannol
- Materion Cydweithio
- Fframwaith Ymgysylltu
- Adolygiad Rhesymoli Partneriaethau
- Strategaeth Caffael
- Gofal Cwsmer – Canlyniad dau ymarferiad peilot Trawsnewid Busnes.

**Pwyllgor Craffu Amgylchedd**

<u>Cadeirydd</u> — Cyng. Stephen Churchman
<u>Is-gadeirydd</u> — Cyng. Linda Morgan







**Y Gwahaniaeth**

**Lleihau ôl-troed Carbon Gwynedd**
Mae’r Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd yn un o ddau gynllun sydd yn derbyn sylw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd. Yn Chwefror 2009 sefydlwyd Gweithgor i fod yn gyfrifol am fonitro cynnydd a darparu mewnbwn er mwyn gwella’r prosiect. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar leihau ôl-troed carbon Gwynedd i’r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ar 29 Ebrill 2010 oedd yn cynnwys blaenoriaethau a adnabuwyd ar gyfer dyfodol y cynllun.

Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Amgylchedd gytuno i’r cynnydd yn y cynllun ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu a thargedau yn yr holl feysydd gwaith. Yn ogystal, derbyniwyd yr ymateb i sylwadau’r gweithgor a derbyniwyd y blaenoriaethau a adnabuwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor**
Y Cynllun hwn fydd yn gyfrifol am wireddu mwyafrif ymrwymiadau'r Cyngor o fewn Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae’r Cynllun Rheoli Carbon yn cynnwys strategaeth y Cyngor ar gyfer lleihau ei allyriadau carbon o 30% erbyn y flwyddyn 2014/15 fel y cam cyntaf at ein cyfraniad tuag at darged uchelgeisiol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o leihau ein hallyriadau carbon o 60% erbyn 2021. Mae’r Cyngor yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd (sy’n cynnwys y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus yn gweithredu yng Ngwynedd) ac mae wedi cymryd yr arweiniad i hyrwyddo gwaith yn y sefydliadau hyn i leihau ôl troed carbon y sector yn y Sir.

Penderfynwyd mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor fel strategaeth a rhaglen waith y Cyngor ar gyfer lleihau ei allyriadau carbon dros y pum mlynedd nesaf. Penderfynwyd hefyd i ddefnyddio £2.5m o’r reserfau penodol a roddwyd o’r neilltu ar gyfer ariannu gofynion unwaith ac am byth yn y tair blynedd gyntaf, ac wedyn ymhen tair blynedd penderfynu, yng nghyd-destun y strategaeth ariannol ar sefyllfa ar y pryd, os i wario o falansau neu fenthyg ar gyfer ariannu gweddill y gost fydd ar ôl.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau ei ddefnydd o ynni yn ei adeiladau o ddeg y cant ac mae hyn wedi arwain at arbedion blynyddol o fwy na £120,000.

**Cynllun Cynnal a Chadw Asedau Priffyrdd**
Cyflwynwyd y cynllun uchod i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ar 24 Mehefin 2010.

Penderfynodd Bwrdd y Cyngor fabwysiadu'r Cynllun ar gyfer ei weithredu a dirprwyo hawl i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Portffolio i amrywio'r safonau yn unol â'r gyllideb sydd ar gael neu mewn ymateb i newid mewn gofynion statudol.

**Adolygiad o Wasanaethau Croesi Plant i Ysgolion**
Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ar 16 Medi 2010 ac ystyriwyd deilliannau'r adolygiad o wasanaethau hebryngyddion croesfannau ysgol a'r model a argymhellir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Rhwng mis Ionawr a Mai 2010 cynhaliwyd adolygiad o'r holl groesfannau ysgol a'r hebryngyddion croesfannau ysgol. Yr oedd yr Adolygiad yn cynnwys cynnal:
- Asesiad Risg Personol ar gyfer pob hebryngydd croesfan
- Asesiad Risg o'r Safle
- Asesiad o'r Cerddwr (sydd dan un ar ddeg mlwydd oed) x llif y traffig

(cymharu nifer y plant sy'n croesi'r ffordd gyda llif y traffig o fewn yr un 30 munud i ganfod y lefel trothwy)

Penderfynodd y Pwyllgor bod yr awdurdod yn darparu gwasanaeth hebryngyddion croesfannau ysgol yn unol â chanllawiau cenedlaethol a phenderfynwyd hefyd ar yr argymhellion i nifer o groesfannau ysgol.

Ystyriwyd yn ogystal, adroddiad Partneriaeth Diogelwch y Ffyrdd Gwynedd ac yn benodol os yw'r trefniadau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth trwy gydweithio traws-asiantaethol yn gadarn. Penderfynwyd cymeradwyo'r trefniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth Diogelwch y Ffyrdd trwy gyd-weithio traws-asiantaethol er galluogi darparu'r gwasanaeth yn effeithlon ac effeithiol.

**Casglu Gwastraff Bwyd yn Wythnosol**
Bu i'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth Wastraff ar gyfer y flwyddyn 2010 hyd 2025 yn ei gyfarfod 21, Ionawr, 2010. Mae'r Strategaeth yn cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod (2010-2025) sydd yn cynnwys 12 prif gam/datblygiad sydd angen eu gweithredu i bwrpas gwireddu'r Strategaeth. Dau o'r camau allweddol yn y Strategaeth dan sylw yw:
Ymdrin a Gwastraff Bwyd (Prosiect GwyriAD) 2012/13 ymlaen, ac yn benodol:
Casglu Gwastraff Bwyd yn Wythnosol (2011/12).

Mae Prosiect GwyriAD yn cynnwys yr angen i gasglu gwastraff bwyd yn wythnosol o dai Gwynedd. Mae angen newid i gasglu yn wythnosol er mwyn sicrhau bod targedau'r Cynulliad ar gyfer lleihau gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans Tirlenwi) a thargedau ailgylchu statudol yn cael eu cyrraedd o 2012 ymlaen, ac i bwrpas osgoi dirwyon sylweddol ar y Cyngor. Mae'r angen i roddi trefniadau ar

gyfer casglu gwastraff bwyd yn wythnosol ac wedi ei sefydlu drwy'r Sir yng Nghynllun Manwl 2011-14 y Bwrdd Rhaglen Amgylchedd ac Isadeiledd y Cyngor.

Ystyriwyd y dewis o'r dull gorau o gasglu gwastraff bwyd yn wythnosol a sicrhau bod cysondeb yn y drefn o'i gasglu drwy'r Sir. Yn ogystal, ystyriwyd y rhaglen ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth newydd ynghyd a'r rhaglen o godi ymwybyddiaeth / ymgyrchoedd perthnasol. Datganwyd cefnogaeth i'r rhaglen ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth newydd o gasglu bwyd yn wythnosol i drigolion Gwynedd.

**Beth Arall Wnaeth y Pwyllgor?**

- Parhawyd gyda'r gwaith monitro perfformiad a herio cynlluniau busnes y gwasanaethau
- Strategaeth Wastraff y Cynulliad - cymeradwywyd a chadarnhawyd sylwadau fel ymateb ffurfiol y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Sector Gwastraff Bwrdeistrefol
- Cymeradwywyd trefniadau Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad yr Arfordir
- Cymeradwywyd cytundeb cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd
- Mabwysiadwyd Strategaeth Fflyd y Cyngor ynghyd â'r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2011-14
- Prosiect Newid hinsawdd: Newid Lleoedd. Bu i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd graffu cynnydd y prosiect a chytunwyd ar y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Cymeradwywyd diwygiadau i'r Canllaw Cynllunio Atodol - adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad i'w ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos
- Cymeradwywyd canllawiau cynllunio atodol i Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd fel dogfennau i'w rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos
- Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd - Cymeradwywyd Canllaw Cynllun Atodol Llety Gwyliau i'w ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos


**Blaenoriaethau'r Flwyddyn Nesaf**

- Ystyried cynnydd yn natblygiad yr Uned Cludiant Integredig, yn cynnwys Cynllun Busnes a rhaglen waith manwl
- Cynllun Lleihau Ôl-troed Carbon Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd (Sector Gymunedol)
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
- Canllawiau Cynllunio Atodol, Ymrwymiadau Cynllunio a Threth Isadeiledd Cymunedol
- Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor
- Strategaeth Wastraff
- Gwastraff Masnachol
- Cynllun Parcio i Breswylwyr

**Pwyllgor Craffu Datblygu**

<u>Cadeirydd</u> Cyng. Ioan Thomas

<u>Is-gadeirydd</u> Cyng. Glyn Roberts


**Y Gwahaniaeth**

**Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd**
Ystyriwyd sefyllfa cyflogaeth ym Meirionnydd, y cyfeiriad a'r cynigion ar gyfer ymateb a'r blaenoriaethau a gynigiwyd.

Penderfynwyd derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ynghyd â sylwadau ychwanegol a wnaed gan aelodau; cyflwyno'r ddogfen Drafft Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd i gyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 14 Mehefin 2010 er ystyriaeth a thrafodaeth ar sut i ddatblygu'r cynllun ymhellach, a'r blaenoriaethau.

Ar 29 Mehefin 2010 derbyniwyd sylwadau ac argymhellion Pwyllgor Ardal Meirionnydd o safbwynt y blaenoriaethau a threfn ar gyfer y gweithredu.

Penderfynwyd cefnogi cynnwys Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd, y Rhaglen Waith a'r blaenoriaethau diwygiedig; cefnogi'r drefn a argymhellwyd ar gyfer rheolaeth gweithredu Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd, gan gynnwys argymhelliad Pwyllgor Ardal Meirionnydd i gynyddu nifer yr aelodau etholedig ar y Tîm Gweithredu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o 5 ardal leol y cynllun; a phenderfynwyd bod angen cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r pwyllgor hwn ym mis Ebrill 2011; anfon neges glir i'r Tîm Gweithredu bod angen iddynt sicrhau blaenoriaeth a chyd-drafod a Chyngor Powys a'r Cynulliad ynglŷn â Phont Machynlleth.

**Cronfa Benthyciadau Lleol**
Fel rhan o'i strategaeth i ymateb i'r dirwasgiad economaidd, cyhoeddodd y Cyngor y ddogfen "Ymateb i'r Dirwasgiad" ym mis Mai 2009. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhaglen o gynlluniau ac ymyraethau i gefnogi unigolion, busnesau, a chyrff cymunedol i sefydlogi a datblygu mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd.

Ystyriwyd adroddiad terfynol ymgynghorwyr allanol, *CM International* i ystyried os oedd cael cronfa fenthyciadau lleol yn ddichonadwy a phenderfynwyd datgan cefnogaeth i'r egwyddor a chyflawni rhagor o waith ar ddau o'r opsiynau.

Amlinellwyd pedwar opsiwn gan yr ymgynghorwyr, a gwelwyd y gellir eu rhannu i ddau sector sef y tri opsiwn gellir eu gweinyddu'n allanol a'r un gellir gweinyddu'n fewnol.

Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu ar 14 Medi ac ystyriwyd y cyfleoedd, cryfderau, gwendidau a risgiau gwahanol sy'n bodoli gyda'r oll ohonynt. Penderfynwyd argymell i Fwrdd y Cyngor dderbyn yr opsiwn o gael Cronfa Fewnol a olygai Cronfa o £1m - £3m o arian y Cyngor yn cael ei reoli a'i weinyddu yn fewnol.

**Digwyddiadau Mawr yng Ngwynedd**

Er mwyn gosod cyfeiriad i'r gwaith yn y dyfodol, gofynnwyd i aelodau graffu: Cefnogaeth Cyngor Gwynedd i ddigwyddiadau mawr a'r budd economaidd sy'n deillio o Ddigwyddiadau Mawr i Wynedd.

Penderfynwyd cefnogi'r argymhellion i ddatblygu Fframwaith Strategol a strwythur gweithredol clir o fewn y Cyngor i gefnogi digwyddiadau mawr a strategol yn y dyfodol; cydweithio hefyd â threfnwyr digwyddiadau mawr ar draws y sir i gasglu tystiolaeth o werth a budd digwyddiadau lle nad yw'r Cyngor yn cyfrannu; adnabod ac adolygu arferion da gan uchafu'r budd lleol o Ddigwyddiadau Mawr a Strategol. Gweithio'n agos ag Uned Digwyddiadau Mawr y Cynulliad er mwyn parhau i adnabod, datblygu a denu Digwyddiadau Mawr i Wynedd; cydweithio gyda chynghorau eraill ar draws Gogledd Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru i ddenu, datblygu a chefnogi digwyddiadau; ystyried ymhellach y cyfleon economaidd i Ogledd Orllewin Cymru o weithio mewn partneriaeth gyda Ystâd Y Faenol i ddatblygu'r is-adeiladwaith fyddai'n cryfhau'r cynnig a'r gallu i ddenu a datblygu Digwyddiadau Mawr a Strategol eraill i'r rhanbarth yn y dyfodol; trefnu cyfarfod buan gyda Universal Music/Elusen Gŵyl Y Faenol i drafod y ffordd orau ymlaen parthed Gŵyl Y Faenol i'r dyfodol.

**Glynllifon**

Sefydlwyd Gweithgor gan y Pwyllgor ar 22 Medi 2009 i ystyried dewisiadau ar gyfer trefniadau cyflwyno'r gwasanaeth a rheolaeth Glynllifon i'r dyfodol.

Wrth fabwysiadu ei Strategaeth Arbedion ar 10 Rhagfyr 2009 penderfynodd y Cyngor arbed £22,880 trwy "trosglwyddo cyfrifoldeb am Feithrinfa Goed Glynllifon" a £79,870 trwy "allanoli Parc Glynllifon"

Bu i'r Gweithgor drafod nifer o ddewisiadau rheolaethol posibl ar gyfer y ffordd ymlaen. Ar ôl cytuno ar y ffactorau o blaid ac yn erbyn pob un dewis, cytunwyd fod rhesymau digonol i roi ystyriaeth bellach i dri dewis yn unig, sef:

- cyflwyno gwelliannau i'r drefn bresennol,
- sefydlu "endid" hyd fraich, gyda llais y Cyngor yn rhan ohono
- ac oherwydd y cyd-leoli a chysylltiadau rhwng cyrsiau'r Coleg ac adnoddau'r Parc, sefydlu trefniadau rheoli ar y cyd a Choleg Llandrillo Cymru (sef Coleg Meirion Dwyfor cynt).

Yn ogystal roedd Aelodau'r Gweithgor Gwella am weld y dewis terfynol yn sicrhau fod eiddo a thiroedd y Parc yn parhau fel adnodd cyhoeddus; fod mynediad i'r cyhoedd yn parhau a bod awyrgylch Cymraeg a Chymreig yn parhau.

Comisiynodd y Gweithgor waith pellach fyddai'n sail i benderfyniad gweithredu un o'r tri dewis uchod. Gwaith yr Ymgynghorydd a benodwyd oedd datblygu'r syniadaeth hon, paratoi astudiaeth busnes eang a chynghori ar y posibiliadau o sefydlu a chynnal menter hyfyw yn unol â brîff a gytunwyd gan y Gweithgor Gwella.

Nid oedd aelodau'r Gweithgor o'r farn fod yr Ymgynghorwyr wedi eu hysbrydoli gyda syniadau nac wedi paratoi adroddiad terfynol a oedd yn rhoi sail gadarn i benderfyniad ac argymhellodd y Gweithgor i'r Pwyllgor Craffu Datblygu gyfarwyddo swyddogion perthnasol y Cyngor wneud gwaith pellach ynglŷn â manylder sefydlu endid newydd i reoli, cynnal a datblygu Parc Glynllifon, a chyfarwyddo agor trafodaeth ffurfiol gyda Choleg Llandrillo Cymru er mwyn darganfod manylder ei ddiddordeb ym Mharc Glynllifon a Meithrinfa Goed Glynllifon, ac i'r Gweithgor Gwella adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Datblygu.

Cyflwynwyd ail adroddiad y Gweithgor i'r Pwyllgor Craffu Datblygu ar 8 Chwefror 2011 a phenderfynwyd derbyn argymhellion y Gweithgor sy'n dangos mai'r potensial gorau tymor hir ar gyfer Parc Glynllifon yn y dyfodol yw trwy gytundeb ffurfiol gyda Choleg Llandrillo Cymru; cefnogi er budd y Cyngor a'r Coleg, i'r Cyngor barhau i reoli'r Parc, ond mewn ffurf amgen, yn y ddwy flynedd gyntaf dan fwrdd trosiannol a fyddai'n paratoi'r ffordd ar gyfer rheolaeth gan y Coleg ar ôl y ddwy flynedd; gofyn i'r Pennaeth Economi a Chymuned drafod gyda'r Unedau Eiddo a Chyfreithiol, benawdau cytundeb gyda Choleg Llandrillo Cymru ac adrodd yn ôl i'r Gweithgor; cyfarwyddo agor trafodaeth ffurfiol gyda'r Coleg ar sail yr uchod, gydag adroddiad yn uniongyrchol i Fwrdd y Cyngor; derbyn adroddiadau pellach cyn trosglwyddo rheolaeth Parc Glynllifon i'r Coleg; awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i weithredu'r camau nesaf a chynnal trafodaethau pellach parthed sefydlu endid newydd.

**Treftadaeth yr Ardaloedd Llechi**

Mae cwymp y diwydiant llechi wedi ei adlewyrchu yn y cymunedau a fu'n gartref iddo gyda lleihad yn y boblogaeth, dirywiad yng nghyfoeth a chyflwr ffisegol y cymunedau a chynnydd hirdymor yn yr heriau cymdeithasol ac economaidd i drigolion yr ardaloedd hyn.

Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor i graffu'r gweithgaredd presennol ac arfaethedig i uchafu'r budd lleol o dreftadaeth yr ardaloedd lechi a bu i Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Cymru a Dr. Dafydd Gwyn, Ymgynghorydd yn y maes Treftadaeth fynychu'r cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau.

Adroddwyd ar y Fenter Ardal y Llechen a'r mentrau adfywio cyfredol yn y dyffrynnoedd llechi. Ym Mai 2010 cytunodd y Cyngor i gais i arwain ar gymryd y camau cyntaf tuag at ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ar gyfer diwydiant llechi Gogledd Cymru, sef y dynodiad mwyaf blaenllaw ledled y byd o arwyddocâd a phwysigrwydd lleoliadau i ddatblygiad dynolryw. Yn ogystal, cymerwyd y cyfle i gyflwyno'r cais i ymuno â'r Rhestr Betrus y DU sydd ond yn cael ei gynnig bob tua deg mlynedd. Gall y broses o gyflwyno cais llawn i UNESCO gymryd rhai blynyddoedd.

Penderfynwyd sefydlu grŵp penodol, gydag aelodau etholedig yn gwasanaethu arno, i lunio cynllun clir o safbwynt sut i symud rhai o'r rhaglenni ymlaen yn y dyffrynnoedd

llechi ac argymell bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i gymryd Chwarel Dorothea drosodd trwy orfodaeth er lles pobl Dyffryn Nantlle a Chymru gyfan gan fod y safle'n beryglus, yn rhwystr i ddatblygiadau ac nad yw'r datblygiadau sy'n digwydd yno ar hyn o bryd yn dderbyniol.

**Treftadaeth a Chelfyddydau**
Sefydlwyd Gweithgor er mwyn cynnal adolygiad llawn o wasanaethau treftadaeth a chelfyddydau'r Cyngor megis archifau, amgueddfeydd, orielau a'r celfyddydau er ceisio gwneud arbedion o £59,870 yn flynyddol o 2012/13 ymlaen.

Penderfynwyd cefnogi'r Strategaeth; y Cynigion Ariannol a'r Cynigion Gweithredol ac ail-ymgynnull y Gweithgor Gwella pe byddai unrhyw gynigion/datblygiadau eraill yn codi o ran yr arbediad hwn neu unrhyw arbediad sylweddol arall o fewn treftadaeth a'r celfyddydau yn y dyfodol

**Beth Arall Wnaeth y Pwyllgor?**
- Parhawyd gyda'r gwaith monitro perfformiad a herio cynlluniau busnes y gwasanaethau
- Ystyriwyd data ar berfformiad yr economi
- Strwythur Cist Gwynedd 2010 - ystyriwyd budd ac effaith y grantiau a ddyrannwyd gan CIST Gwynedd, a chefnogwyd cyfeiriad i'r maes ar gyfer y Dyfodol
- Perfformiad y rhaglen Cydgyfeirio
- Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan Sasha Davies, Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni yn rhoddi manylion am Raglen Ynys Ynni ac am y cyfleon mawr y rhagwelir a ddeuai allan o'r rhaglen i Ogledd Orllewin Cymru ac yn enwedig Wylfa B pan gaiff ei adeiladu
- Band Eang yng Ngwynedd - Ystyriwyd adroddiad ar y sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, yr anghenion i'r dyfodol a'r bwriadau ar gyfer ymateb i'r sefyllfa
- Ystyriwyd dylanwad y Cyngor ar Gartrefi Cymunedol Gwynedd o safbwynt sicrhau bod economi Gwynedd yn elwa o'r buddsoddiad sylweddol yn sgil trosglwyddiad y stoc tai

**Blaenoriaethau'r Flwyddyn Nesaf**
- Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd
- Band Eang yng Ngwynedd
- Ystyried cyfeiriad newydd Cymunedau'n Gyntaf
- Goresgyn Rhwystrau i Waith - ystyried y bwriadau ar gyfer parhad y cynllun *Genesis*
- Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel (Ynni Niwclear ac Ynni Adnewyddol)
- Ystyried adroddiad y Gweithgor Maes Sgiliau
- Ystyried adroddiad cynnydd y Gronfa Fenthyciadau
- Ystyried adroddiad Gweithgor Treftadaeth a Chelfyddydau
- Ystyried adroddiad ar yr Ardaloedd Llechi
- Ystyried rhaglen waith Cadw'r Budd yn Lleol
- Ystyried data ar berfformiad yr economi
- Ystyried adolygiad strategol maes Economi ac Adfywio

**Pwyllgor Craffu Gofal**

<u>Cadeirydd</u> Cyng. Peter Read

<u>Is-gadeirydd</u> Cyng. Margaret Griffith







**Y Gwahaniaeth**

**Cartref Bron y Graig**
Ystyriwyd adroddiad ar 17 Mehefin 2010 oedd yn edrych ar foderneiddio'r ddarpariaeth lletya i bobl hŷn mewn 4 ardal, sef Y Bala, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Bangor. O safbwynt Cartref Preswyl Bron y Graig, Y Bala nodwyd mai darparu gofal preswyl yn unig a wneir yno.

Deallwyd bod Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Clwyd wedi diogelu £4.3 miliwn o gyllid cyfalaf o raglen Grant Cymdeithasol y Cynulliad ar gyfer datblygu 30 o unedau tai gofal ychwanegol yn Y Bala a bod y Gymdeithas yn rhagweld y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod haf 2010 ac yn cael ei gwblhau yn fuan yn 2012.

Ystyriwyd yr opsiynau a adnabuwyd gan grŵp tasg ar gyfer Cartref Preswyl Bron y Graig sef:

a) Cynnal a chadw'r eiddo presennol yn agored ac yn unol â'r gofynion statudol
b) Dod a defnydd presennol yr eiddo fel cartref preswyl y Cyngor i ben.

a'r rhestr o fudd-ddeiliaid restrwyd gan Adran Gwasanaeth Cymdeithasol ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol.

Argymhellwyd fod ymgynghoriad ar ddyfodol Cartref Preswyl Bron y Graig Y Bala yn seiliedig ar yr opsiwn y byddai defnydd presennol yn dod i ben ar ôl i'r unedau tai gofal newydd gael eu hagor yn swyddogol ac argymell fod y Cyngor yn dechrau ar y broses ymgynghori trwy gysylltu â'r preswylwyr a'u teuluoedd, y staff a'r Undebau.

Cyflwynwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartref Preswyl Bron y Graig, Y Bala i'r Pwyllgor ar y 7fed o Ebrill 2011 a phenderfynwyd argymell i Fwrdd y Cyngor:

a) y dylid dod a defnydd presennol Cartref Preswyl Bron y Graig, Y Bala i ben ar sail y ffaith fod Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei ddatblygu yn y dref a chost uned uchel iawn Cartref Bron y Graig.

b) nad yw defnydd presennol Cartref Bron y Graig Y Bala yn dod i ben hyd nes bod y Cynllun Tai Gofal Ychwanegol wedi agor a bod hyn yn rhoi cyfle i'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol asesu'r preswylwyr presennol a thrafod gyda hwy a'u teuluoedd yr opsiynau sydd ar gael gan gofio, os mai dyna eu dymuniad ac y byddai'r gwasanaeth yn addas, y posibilrwydd o drosglwyddo i un o'r 30 uned yn y Tai Gofal Ychwanegol.
c) fod y Grŵp Tasg Gweithlu yn paratoi cynllun manwl ar gyfer ymateb i'r newidiadau yn narpariaeth llety a gofal pobl hŷn Y Bala.

**Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio**
Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor gydag argymhellion ar 17 Mehefin 2010 ond penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r drafodaeth oherwydd nad oedd y Gweithgor perthnasol wedi cael cyfle i graffu'r mater yn drylwyr a bod y Gweithgor yn cynnal cyfarfod gyda'r ymgynghorydd allanol, ar 21 Gorffennaf gyda holl aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod.

Ystyriwyd yr adroddiad eto ar 28 Medi 2010 gan roi sylw arbennig i'r tybiaethau a ddefnyddiwyd fel sail i lefelau gwasanaeth i'r dyfodol; anghenion strategol gynigir ar gyfer y dyfodol a chymeradwyo symud ymlaen i gynnal mwy o drafodaethau manwl yn y dalgylchoedd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

Penderfynwyd argymell i Fwrdd y Cyngor y dylid cymeradwyo'r argymhellion ac ystyried opsiwn o ddarparu cartrefi bychan, mewn ardaloedd gwledig fel rhan o'r Adolygiad.

Ar y 1af o Chwefror cyflwynwyd Cam 3 o'r Adolygiad ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y Gweithgor gan gynnwys cyfarfod olaf y Gweithgor pan gynigiwyd newidiadau i'r adroddiad sydd wedi'i ddiwygio yn unol â phenderfyniadau'r Gweithgor. Ystyriwyd yr argymhellion a oedd wedi derbyn cymeradwyaeth y Gweithgor a phenderfynwyd argymell i Fwrdd y Cyngor y dylid:-

a) Cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol gyda phwyslais yn cael ei roi ar annibyniaeth yn lle creu dibyniaeth trwy gynyddu cefnogaeth megis galluogi, teleofal gofal ysbaid a thai gofal ychwanegol.
b) Cydnabod yr angen a ragwelir ar gyfer dadgomisiynu rhai cartrefi preswyl mewnol fel cam angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth yma.
c) Argymell awdurdodi ymarferiad ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â dyfodol Hafod y Gest, Porthmadog gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn y dyfodol yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a rhoi argymhellion ar y ffordd ymlaen, yn dilyn cysylltiad gyda'r aelod lleol.
ch) Awdurdodi trafodaeth bellach i ganfod safle a darparwr ar gyfer darpariaeth yn ardal De Meirionnydd, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ac, os yn briodol, cyflwyno argymhellion am y broses caffael fwyaf addas, yn dilyn cysylltiad hefo'r aelodau lleol.
d) Awdurdodi trafodaethau pellach ar yr opsiynau ar gyfer gweddill y cartrefi, gan gynnwys trosglwyddo i ddarparwyr annibynnol, ac ystyried 'cwmni hyd braich' fel bydd y datblygiadau sydd wedi eu rhagweld, a'r ymgynghoriadau ychwanegol yn mynd ymlaen, gan gyflwyno adroddiadau pellach pan yn briodol yn dilyn cysylltiad hefo'r aelodau lleol.

**Arian Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol 2**
Ystyriwyd adroddiad ynghyd ag argymhellion ar sut i'w wario, lle a phwy i'w targedu. Cytunwyd bod Partneriaeth Dai Gwynedd yn gweithredu trefn blaenoriaethu gwario'r gyllideb Cymorth Prynu o £800,000 yn 2010/11 ar sail pwyntiau a nodwyd yn yr adroddiad a'i fod yn cefnogi'r angen i Swyddogion y Cyngor a'r Partneriaid perthnasol symud ymlaen yn syth, fel sydd yn angenrheidiol, gyda'r trefniadau er mwyn blaenoriaethu gwariant yn ogystal â sicrhau gwariant llawn o'r Gronfa Cymorth Prynu yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11. Penderfynwyd hefyd bod aelodau'r Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth bellach ynglŷn â manylion 'cysylltiad lleol' ymgeiswyr' a'r dull o dalu arian yn ôl i'r Gronfa pan mae tai'n cael eu gwerthu.

**Gwasanaeth Teleofal**
Cyflwynwyd adroddiad yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â darpariaeth gyfredol Gwasanaeth Teleofal yng Ngwynedd a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Deallwyd bod pum Cyngor ar draws Gogledd Cymru yn cydweithio ar gyfer sefydlu un Gwasanaeth Monitro Galwadau Brys ac y bydd dwy ganolfan alw ddwyieithog yn cael eu sefydlu, y naill ym Môn a'r llall yng Nghonwy.

Ystyriwyd Rhaglen Waith Gwasanaeth Teleofal Gwynedd a phenderfynwyd bod cefnogaeth i'r bwriad i ddatblygu Teleofal fel un o'r cynlluniau blaenoriaeth ar draws Gwasanaeth Oedolion; bod blaenoriaeth yn cael ei roi i dargedu cynlluniau sydd yn hyrwyddo annibyniaeth ac effeithlonrwydd o ran cost darpariaeth a bod Cyngor Gwynedd yn aelod o'r rhaglen waith rhanbarthol er mwyn sicrhau a hyrwyddo anghenion preswylwyr Gwynedd.

**Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-16**
Ystyriwyd y cynllun comisiynu a oedd yn ymgorffori deilliannau sydd wedi eu hadnabod ac y cytunwyd arnynt gyda phobl hŷn mewn digwyddiad ymgynghorol cychwynnol lle 'roedd dros 100 yn bresennol i leisio barn. Yn ogystal casglwyd barn pobl leol ac yn sgil yr ymgynghoriad daeth i'r amlwg mai un o brif ddymuniadau'r bobl hŷn oedd gallu byw mor annibynnol ag yn bosib.

Derbyniwyd a chytunwyd ar gynnwys yr adroddiad a phenderfynwyd bod gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu gan yr Uned Ymchwil ynglŷn â'r bras-amcan o boblogaeth Gwynedd hyd at y flwyddyn 2030 ac yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod paratoi nesaf.

**Beth Arall Wnaeth y Pwyllgor?**
- Ystyriwyd Strategaeth Digartrefedd Gwynedd 2010 – 2013
- Ystyriwyd adroddiad perfformiad Strategaeth Tai Lleol Gwynedd 2009-2010 a'r Cynllun Gweithredu 2010-2011
- Monitro Perfformiad Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Parhawyd gyda'r gwaith monitro perfformiad a herio cynlluniau busnes y gwasanaethau
- Ystyriwyd adroddiadau rheolaidd y Gweithgor Craffu Rhaglen Wella Adolygiad ar y Cyd
- Ystyriwyd a chynnig ymateb i'r papur ymgynghorol "Dyfodol Plismona yng Ngogledd Cymru"
- Ystyriwyd Protocol Cyfeiriadau Trosedd ac Anrhefn Lleol

- Ystyriwyd Strategaeth Pobl Hŷn Gwynedd
- Derbyniwyd cyflwyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr
- Cymeradwywyd Polisi Gosod Cyffredin Tai drafft ar gyfer cychwyn ar broses ehangach o ymgynghori
- Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Gwynedd 2010-2013
- Ystyriwyd Polisi Gofalwyr a Pholisi Gofalwyr Ifanc Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymgynghorwyd ar ddyfodol Cartrefi Preswyl Anableddau Dysgu.
- Ystyriwyd yr Ymateb i Lythyr Blynyddol Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Ystyriwyd adroddiadau Adolygiad Strategol Maes Hamdden
- Ystyriwyd Protocol Drafft ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Anawdurdodedig

**Blaenoriaethau'r Flwyddyn Nesaf**

- Ystyried adroddiad terfynol prosiect y Gweithgor Partneriaid Mewn Gofal
- Ystyried Ymateb i Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ystyried Gofynion ac Ymateb Cyngor Gwynedd ar Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Amddiffyn Oedolion Bregus
- Ystyried Ymateb i Ymgynghoriad ar ddyfodol Hafod y Gest, Porthmadog
- Monitro perfformiad Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Ystyried datblygu marchnad Gofal Preswyl a Nyrsio yn Ne Meirionnydd.
- Monitro perfformiad a gwaith cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Ystyried Cynllun Comisiynu ar gyfer y ddarpariaeth yng Ngwynedd i bobl hŷn a phobl ag anawsterau dysgu
- Sefydlu Trefn Comisiynu/Pwrcasu Rhanbarthol - Ystyried adroddiad ymgynghorwyr allanol ar gynllun gweithredu ar draws Gogledd Cymru a hyb comisiynu
- Ystyried opsiynau dilyn ail fodelu darpariaeth Gofal Dydd
- Ystyried Strategaeth Tai Lleol Gwynedd 2012-15 – drafft ymgynghorol
- Sesiwn rhannu gwybodaeth Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.
- Adolygiad Strategol Hamdden
- Cyfarfod Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**

| Cadeirydd | Is-gadeirydd | |
|---|---|---|
| Cyng. Dewi Owen | Cyng. Gwen Griffith | |







**Y Gwahaniaeth**

**Trefniadaeth Ysgolion Cynradd**
Sefydlwyd Gweithgor Trefniadaeth Ysgolion Cynradd ym Mehefin 2008. Yn ystod Gwanwyn 2009, fe gyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. Cytunwyd bod angen i adolygu addysg ym mhob rhan o'r sir, fesul dalgylch a gosodwyd camau eglur ar gyfer cynnal y broses. Cymeradwywyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009.

**Trefniadaeth Ysgolion Cynradd Dalgylch y Berwyn**
Penderfynodd y Pwyllgor ar 24 Mai 2010 gymeradwyo'r cynigion canlynol ar gyfer ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adrannau 28 a 29 o Ddeddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998:

(i) I sefydlu campws gydol oes newydd yn nhref Y Bala i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15 i gynnwys ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid, ac Ysgol Uwchradd Y Berwyn. Bydd angen i swyddogion wneud gwaith pellach ar natur reolaethol y campws newydd.
(ii) I gau Ysgol y Parc erbyn Medi 2012 gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn a bod y Cyngor yn gweithio gydag Arweinwyr Cymunedol a Swyddogion Adfywio Bro i ddiogelu defnydd cymunedol adeilad ysgol Y Parc. Bwriedir symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion - gyda chaniatâd y Cyngor – yn ystod Hydref 2010.
(iii) I hybu cydweithio rhwng Ysgolion O M Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn ac i ddatblygu ffyrdd o ganiatáu i'r ysgolion fanteisio ar gyfleusterau ac arbenigedd y campws gydol oes. (Nid oedd i'r cynnig hwn oblygiadau statudol)

Cyflwynwyd y cynigion uchod i Fwrdd y Cyngor 15 Mehefin 2010 a phenderfynwyd (a) bod swyddogion yn cyflawni gwaith ymchwil i oblygiadau statws cymunedol Ysgol y Parc, er mwyn cyflwyno'r wybodaeth er ystyriaeth y Cyngor llawn ar 15 Gorffennaf.

(b) argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r cynigion ar gyfer ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adrannau 28 a 29 o Ddeddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998.

Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghori statudol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion yn nalgylch y Berwyn yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 15 Gorffennaf 2010 i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 24 Chwefror 2011 a phenderfynwyd:-

(a) Cyfleu i Fwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011 ac i'r Cyngor llawn ar 12 Mai 2011 gefnogaeth y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r canlynol:

(i) Er mwyn hwyluso sefydlu'r Campws Dysgu Gydol Oes arfaethedig, cymeradwyo'r bwriad i gau Ysgol y Berwyn, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid ar 31 Awst 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.

(ii) Cymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Gymunedol ar safleoedd Ysgol y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant i dderbyn disgyblion o'r amrediad oed 3 -19 fel rhan o sefydlu *Campws Dysgu Gydol Oes newydd yn nhref y Bala* i agor ar 1 Medi 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.

(iii) Cymeradwyo :

- cau *Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012,* gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar Ysgol O M Edwards a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw; ond yn y cyfamser
- gofyn i swyddogion priodol y Gwasanaeth Addysg baratoi adroddiad er ystyriaeth Bwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011 a'r Cyngor llawn ar 12 Mai 2011 yn amlinellu goblygiadau o ymestyn cyfnod cau Ysgol y Parc i'r 31 Awst 2013 / 31 Awst 2014 / 31 Awst 2015.

(b) Na ddylid cyhoeddi'r Rhybuddion Statudol y cyfeiriwyd atynt yn (i), (ii) a (iii) uchod hyd nes bydd pecyn ariannol cyfalaf wedi ei gytuno.

**Trefniadaeth Ysgolion Cynradd Dalgylch Tywyn**
Ar 30 Tachwedd 2010 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ymgynghoriad statudol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion dalgylch Tywyn yn unol â phenderfyniad Cyngor Gwynedd ar 10 Rhagfyr 2009.

Penderfynwyd cymeradwyo ac argymell i Fwrdd y Cyngor eu bod yn mabwysiadu'r cynigion isod:
(i) cau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011 a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn.
(ii) Cau Ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14 a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn gyda'r nod o gau'r ysgolion yn ffurfiol unwaith mae'r ysgol ardal newydd ar agor.
(iii) Cychwyn proses o ymgynghoriad yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i sefydlu ysgol ardal gymunedol i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2013-14 ar safle 1 yn Llanegryn yn amodol ar yr argymhelliad i gau ysgolion Bryncrug, Llanegryn, Llwyngwril ac Abergynolwyn.
(iv) Cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011 gan ddarparu lleoedd ar gyfer plant yn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn, a chyhoeddi cynigion statudol i'r perwyl hwn.

(v) Gwneud newid rhagnodedig i Ysgol Penybryn, Tywyn, trwy ganiatáu i Ysgol Penybryn roi mynediad i ddisgyblion oedran meithrin yn unol â pholisi'r Cyngor o Fedi 2011 a chyhoeddi cynigion statudol i'r perwyl hwn.

Penderfynodd y Bwrdd ar 14 Rhagfyr 2010 gymeradwyo'r argymhellion uchod gan ychwanegu fel a ganlyn:-

- Er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad cytbwys ar y mater, gofyn i swyddogion gyflawni gwaith ymchwil i amlinellu amrywiol oblygiadau ymestyn dyddiad cau Ysgol Aberdyfi i'r flwyddyn ysgol 2013-14, i gyd fynd ag agor yr ysgol ardal gymunedol, erbyn y Cyngor llawn;
- Bod y Cyngor yn deall bod rhieni'n bryderus am gludo plant mewn bysus am y tro cyntaf yn sgil newidiadau ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Tywyn. Bwriedir darparu trefniant trosiannol lleol dros dro fel y bydd oedolyn ychwanegol yn teithio gyda gyrrwr y bws sy'n cludo plant o Aberdyfi i Benybryn, Tywyn ac yn ôl, ac o Abergynolwyn, Bryncrug a Llwyngwril i'r ysgol ardal newydd ac yn ôl. Adolygir y trefniant trosiannol ar ôl iddo fod yn weithredol am dymor ysgol. Hefyd fe'i gwneir yn amod tendro bod gwregysau diogelwch wedi'u gosod mewn bysus ysgol wrth gytuno cytundebau cludiant newydd yn sgil ad-drefnu yn ardal Tywyn. (Nodwyd na fwriedir iddo ddisodli unrhyw bolisïau perthnasol eraill sy'n bodoli yn y sir).

**Adroddiad Ymgynghoriad Sefydlu Ysgol Ardal ym Mro Dysynni**
Penderfynodd y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2011 i gyfleu i'r Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2011 gymeradwyaeth y Pwyllgor i sefydlu Ysgol Gymunedol ardal yn Llanegryn erbyn 1 Medi 2013 i dderbyn disgyblion amrediad oedran 3-11 ac i gyhoeddi rhybuddion statudol i'r bwriad hwnnw yn unol ag Adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**Adroddiad Cau Ysgol Aberdyfi**
Penderfynodd y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2011 i gyfleu i'r Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2011 gymeradwyaeth y Pwyllgor i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i nodi hynny.

**Polisi Cludiant ôl-16 oed**
Penderfynodd Cyngor Gwynedd adolygu'r polisi presennol am y rhesymau canlynol:- gwendidau yn y polisi presennol; newidiadau yn y patrwm darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd dros 16oed; argaeledd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer dysgwyr ar aelwydydd llai cefnog; pwysau ariannol enfawr ar gyllideb y Cyngor a chyflwyno polisi newydd a thal penodol am y cludiant. Rhagwelir bydd y tâl newydd yn adennill 20% o sybsydi'r Cyngor ar gludiant ol-16 oed.

Ymgynghorwyd gyda Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd, Penaethiaid Ysgolion Arbennig Gwynedd, Penaethiaid Colegau Menai a Meirion – Dwyfor, dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor ( Dolgellau a Phwllheli ) a Choleg Menai ( Llangefni a Bangor ), Grŵp Craidd Cydraddoldeb Anabledd, Uned Gwasanaeth Plant Arbennig, Grŵp Clebran ac Uned Cydraddoldeb ac Iaith Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb drwy amlinellu beth oedd perthnasedd y polisi i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb.

Cyflwynwyd argymhellion y Gweithgor i'r Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2010 a phenderfynwyd cyflwyno'r argymhellion hynny i'r Bwrdd ar 25 Ionawr 2011. Penderfynodd y Bwrdd fabwysiadu'r Polisi newydd o 1af o Fedi 2011; mabwysiadu'r ffioedd a thaliadau ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2011/12; diddymu'r Polisi Cludiant ol-16 oed presennol o 31 Awst 2011; awdurdodi'r Pennaeth Addysg i gynnwys y manylion cyswllt priodol ym Mharagraff 7.8 a'r adran "Gwybodaeth Ychwanegol" o'r Polisi; sicrhau, cyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2011, fod yr holl ddysgwyr - a'u rhieni, a'r sefydliadau addysgol a fydd yn rhan o'r polisi newydd a'r ffioedd a thaliadau wedi'u hysbysu o'r trefniadau newydd a gofyn i'r Gwasanaeth Addysg edrych i'r posibilrwydd o addasu'r polisi er mwyn sicrhau na chyfyngir ar ddewisiadau addysgol pobl ifanc y sir mewn perthynas â mynychu cyrsiau all-sirol na ddarperir yng Ngwynedd.

**Anghenion Addysg Arbennig**
Sefydlwyd Gweithgor Anghenion Addysg Arbennig yn 17 Tachwedd 2008 a gosodwyd briff ehangach gan Fwrdd y Cyngor.

Yr oedd aelodaeth y Gweithgor yn cynnwys aelodau etholedig, aelod cyfetholedig, croesdoriad o benaethiaid yn cynrychioli ysgolion gydag Unedau a rhai heb Unedau, 3 aelod o'r Panel Cymedroli Cynradd, 2 aelod Unedau AAS o blith yr athrawon mewn gofal i gynrychioli'r grŵp, yn benodol ar gyfer yr eitem Unedau ôl gynnydd Anghenion Addysg Arbennig CA2 a chynrychiolaeth o fudiad SNAP fel llais rheini.

Etholwyd is-grŵp i sefydlu model ar gyfer gweithredu ar draws yr Awdurdod gan roi ystyriaeth i ardaloedd gwledig. Cyfarfu'r is-grŵp ddwywaith a chafwyd cyflwyniad ar fodelau posib mewn perthynas â gwasanaeth Athrawon AAA CA1 a CA2.

Trafodwyd adroddiad y Gweithgor yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Ionawr 2010 a gofynnwyd i'r Gweithgor wneud gwaith pellach er mwyn ymgynghori'n llawn ar y cynigion. Yn dilyn y cyfarfod yma, cyflawnwyd gwaith pellach o ymgynghori dan arweiniad SNAP Cymru i ganfod barn croes-doriad o rieni am y ddarpariaeth bresennol a'r cyfeiriad newydd a argymhellir. Gofynnwyd hefyd i Gynllun "Clywed" ymgynghori gyda disgyblion penodol mewn sampl o Unedau AAA. Bwriad yr ymgynghoriad oedd canfod barn y disgyblion am eu profiad o fynychu'r unedau. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar y gwaith pellach uchod ar 24 Mai 2010 a derbyniwyd argymhellion y Gweithgor.

Cyflwynwyd argymhellion y Pwyllgor i'r Bwrdd ar 25 Mai 2010 a phenderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor.

**Beth Arall Wnaeth y Pwyllgor?**

- Parhawyd gyda'r gwaith monitro perfformiad a herio cynlluniau busnes y gwasanaethau
- Craffu Adolygiad o weithrediad Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion Cynradd.
- Craffu adroddiad ail-strwythuro darpariaeth Anhwylderau Iaith Penodol Gwynedd

- Craffu Cynllun Gweithredu ôl-arolwg ESTYN o ansawdd Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd
- Craffu Rhaglen Strategol "Tuag at 2025"
- Craffu Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Ieuenctid
- Ystyried Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant Sector Cynradd Gwynedd
- Sefydlwyd Gweithgor Gwella Maes Addysg Feithrin
- Craffu Adroddiad Blynyddol Adran Addysg; Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol; Adroddiad Blynyddol Bwrdd Lleol Diogelu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a Môn; Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd; Adroddiad Blynyddol y drefn gwyno a chynrychiolaeth 2009/10; Adroddiad Blynyddol Amddiffyn Oedolion Bregus; Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol

**Blaenoriaethau'r Flwyddyn Nesaf**

- Adroddiad Gweithgor Anghenion Addysg Arbennig - cyflwyno adroddiad cynnydd ar berfformiad y gyfundrefn newydd
- Adolygiad o weithrediad Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion Cynradd
- Ystyried bwriadau'r Gwasanaeth o ran comisiynu Gwasanaeth Plant a Theuluoedd
- Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
- Ystyried adroddiad cynnydd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc Anabl a Sâl
- Ystyried adolygiad y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Ystyried casgliadau ymgynghoriad statudol ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Y Gader
- Ystyried canlyniad Gweithdy ar Ysgolion Uwchradd Meirionnydd
- Ystyried adroddiad cynnydd Bwrdd Rhaglen Addysg Gogledd Cymru
- Ystyried adroddiadau cynnydd yn dilyn adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn
- Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd - ystyried cynlluniau i symud i sefydlu gwasanaeth statudol o'r newydd

Am wybodaeth bellach ar faterion y:-

Prif Bwyllgor Craffu
Pwyllgor Craffu Amgylchedd
Pwyllgor Craffu Datblygu
Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

cysylltwch â:

Gareth James, Rheolwr Craffu 01286 679261
GarethJames@gwynedd.gov.uk . www.gwynedd.gov.uk
Ann Roberts, Swyddog Craffu Cynorthwyol 01286 679618
AnnElizabethRoberts@gwynedd.gov.uk . www.gwynedd.gov.uk

Am wybodaeth bellach ar faterion y:-

Pwyllgor Craffu Gofal cysylltwch â:

Rhoslyn Prys, Rheolwr Polisi Strategol - Gofal, Oedolion a Phlant 01286 679708
RhoslynPrys@gwynedd.gov.uk . www.gwynedd.gov.uk